PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Gwener, 30 Ebrill 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
S.M. Allen, K.V. Broom, D.M. Cundy, W.R.A. Davies, H.L. Davies, J.S. Edmunds, J.K. Howell, G.H. John, C. Jones, J.G. Prosser a D.E. Williams;

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd E. Dole, Arweinydd y Cyngor;
Y Cynghorydd D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau;
Y Cynghorydd L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor;

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol;
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforaethol;
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr;
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
J. Williams, Swydd: Rheolwr Datblygu Pecynnau Cymhwyso;
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
A. Kenyon, Senior Performance Management Officer
N. Evans, Rheolwr Cymorth Busnes;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod:10.00 yb - 12.50 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd K. Madge a'r Cynghorydd H.A.L. Evans, Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
S.M. Allen	4 - Cynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr 2021/22 - Menter 10 tref	Yr Aelod lleol dros Hendy-gwyn ar Daf;
H.L. Davies	4 - Cynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr 2021/22 - Menter 10 tref	Yr Aelod lleol dros Lanymddyfri.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

4. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL Y PRIF WEITHREDWR 2021/22

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gynllun Busnes Adran y Prif Weithredwr 2021-22 a amlinellai y blaenoriaethau ar gyfer yr adran ac a nodai sut yr oeddent yn cefnogi'r 5 Ffordd o Weithio a 7 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn sgil pandemig Coronafeirws COVID-19, roedd hwn yn gynllun cryno; byddai fel arfer yn cynnwys adran adolygu ond roedd hwn eisoes wedi'i gynnwys yn yr Asesiadau o Effaith COVID-19 ar Wasanaethau a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd wrth ystyried yr adroddiad:

TGCh a Pholisi Corfforaethol

- Dywedwyd y byddai profiadau ac adborth staff ac Aelodau dros y flwyddyn ddiwethaf o ran gweithio gartref ac ati yn cyfrannu at ddatblygiad rhaglen waith y dyfodol a 'ffyrdd newydd o weithio';
- Eglurwyd mai'r sgôr risg uchaf bosibl o dan 'Risgiau Adrannol Allweddol' fyddai 25 ac y byddai matrics yn cael ei ddefnyddio;
- Mewn ymateb i bryder ynghylch adrodd am 'Fesurau Llwyddiant Allweddol' fel canrannau yn hytrach na thargedau, eglurwyd bod hyn wedi'i osod ar lefel Cymru gyfan a'i fonitro gan Lywodraeth Cymru. Mewn gwirionedd roedd cynlluniau busnes is-adrannol gweithredol yn sail i'r Cynllun Adrannol 'lefel uchel' a oedd yn cynnwys llawer mwy o fanylion a mesurau perfformiad gweithredol. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y rhain yn chwarterol. Awgrymwyd y dylid trefnu sesiwn gloywi ar gyfer y Pwyllgor ynghylch y System Monitro Perfformiad a Gwella(PIMS);

Y Gyfraith a Gweinyddiaeth

- O ran 'cyllidebau cyfun' gydag awdurdodau eraill, dywedwyd bod pob awdurdod ar hyn o bryd yn cadw rheolaeth ar ei gyfran ei hun o'r gyllideb ond bod trafodaethau ar wariant yn cael eu cynnal ar sail partneriaeth;
- Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Gweinyddiaeth, mewn ymateb i gwestiwn, nad oedd gan Adran y Gyfraith ddigon o adnoddau ar hyn o bryd a bod yn rhaid i rywfaint o waith cyfreithiol sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol ac addysg yn benodol gael ei gontractio'n allanol a'r gwasanaethau perthnasol fyddai'n talu amdanynt. Roedd trafodaethau ar y gweill gydag adrannau cleientiaid gyda'r bwriad o nodi cyllid a fyddai'n caniatáu i dîm mewnol y gyfraith gadw mwy o waith yn fewnol;

Rheoli Pobl

- Mewn ymateb i ymholiad, cytunodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol i ail-edrych ar hepgor perfformiad y tîm TIC o'r 'Mesurau Llwyddiant Allweddol' yn enwedig o ystyried yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd hyd yma a'r posibiliadau ar gyfer gwella ar y llwyddiant hwnnw mewn meysydd nad oeddent wedi cael sylw hyd yn hyn megis masnachadwyedd;
- Cyfeiriwyd at yr anawsterau presennol y mae gweithwyr newydd yn eu profi oherwydd diffyg ymgysylltiad wyneb yn wyneb â'u cydweithwyr a'r angen i greu ethos tîm. Dywedwyd y gallai Penaethiaid Gwasanaeth ganiatáu i staff ddychwelyd i'r swyddfa am resymau sy'n gysylltiedig â materion llesiant, diffyg lle neu fand eang gartref, hyfforddiant/sefydlu a chymorth ar gyfer prentisiaethau a staff newydd, neu ofynion gwaith e.e. gweithio ar bapur neu'r angen i gwrdd â'r cyhoedd wyneb yn wyneb;

Adfywio - Eiddo

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd unrhyw beth y gallai'r awdurdod ei wneud i sicrhau bod unrhyw eiddo a werthai yn cael ei ddefnyddio at y diben a gynigiwyd yn wreiddiol gan y prynwr. Nododd y Pennaeth Adfywio,

er bod hyn yn anodd, mewn rhai amgylchiadau, roedd yna ffyrdd lle y gellid dylanwadu ar ddefnydd yn y dyfodol megis cadw tir rhydd-ddaliad nes bod y datblygiad wedi'i gwblhau'n foddhaol;
- O ran meintioli buddion adfywio i dwristiaeth, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cynllun adfer economaidd ledled y Sir yn seiliedig ar 11 thema allweddol a oedd yn cynnwys twristiaeth/digwyddiadau ac ati.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Cynllun.

5. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL GWASANAETHAU CORFFORAETHOL 2021/2022

Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Adran y Gwasanaethau Corfforaethol 2021-22 a oedd yn amlinellu blaenoriaethau'r adran a sut yr oedd yn cefnogi'r Pum Ffordd o Weithio a 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd wrth ystyried yr adroddiad:

- O ran y ddwy sgôr risg uchaf o 25 yn yr is-adran Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, dywedwyd bod y rhain mewn meysydd blaenoriaeth uchel ond bod rheolaethau ar waith i sicrhau y darperir gwasanaethau a oedd yn cynnwys monitro parhad;
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedwyd bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn manylu ar y risg gychwynnol a'r risgiau a ailaseswyd a oedd yn ystyried y rheolaethau a roddwyd ar waith.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Cynllun.

6. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL YR AMGYLCHEDD 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried darnau o Gynllun Busnes Adran yr Amgylchedd 2021-22 yn ymwneud â'r Is-adran Eiddo a oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor. Roedd y darnau o'r Cynllun yn amlinellu blaenoriaethau'r adran a sut yr oeddent yn cefnogi 5 Ffordd o Weithio a 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Cytunodd y Pennaeth Eiddo, mewn ymateb i gwestiwn, i ymchwilio i gyfleoedd i ychwanegu at y rhestr o fesurau llwyddiant allweddol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Cynllun.

7. STRATEGAETH TRAWSNEWID DIGIDOL 2021-2024

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Strategaeth Trawsnewid Digidol arfaethedig 2021-2024 a oedd yn manylu ar flaenoriaethau a dyheadau digidol strategol y Cyngor ac yn amlinellu'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin Ddigidol dros y 3 blynedd nesaf. Nodwyd bod y ddibyniaeth ar dechnoleg i ddarparu gwasanaethau rheng flaen hanfodol trwy'r pandemig Covid-19 wedi dangos pa mor dreiddiol oedd technoleg ddigidol ar draws pob sector ac wedi'i hintegreiddio'n llawn mewn sawl agwedd ar fywyd. Ystyriwyd bod angen Strategaeth Trawsnewid Digidol arloesol a chyffrous ar Gyngor Sir Caerfyrddin oherwydd profwyd y gall technoleg ddigidol drawsnewid y Sir a bywydau pobl yn ogystal â chreu arbedion tymor hir ar gyfer y Cyngor.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd wrth ystyried yr adroddiad:

- Dywedwyd nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at ganran yr ardaloedd digyswllt y cyfeiriwyd atynt mewn cyfarfodydd blaenorol a gofynnwyd y cwestiwn a oedd cyflymder lleihau'r ganran hon yn debygol o gynyddu'n

sylweddol. Mewn ymateb, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr awdurdod wedi gweithio'n agos gyda swyddogion sy'n ymwneud â'r Fargen Ddinesig ac y byddai hyn yn chwarae rhan allweddol o ran helpu i wella mynediad/cysylltedd band eang yn yr ardaloedd hyn;

- Pwysleisiodd y Pennaeth TGCh ac Eiddo Corfforaethol y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud i wella cysylltedd i bawb gan gynnwys y cynllun talebau sydd ar gael i gymunedau a oedd yn cael problemau gyda band eang. Pwysleisiwyd, er bod y Cyngor yn gallu cynnig cysylltedd wi-fi yn rhai o'i adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, nid oedd yn ddarparwr gwasanaeth rhyngrwyd gan fod hon yn fenter sector preifat. Fodd bynnag, gallai cymunedau elwa ar gysylltedd ag ysgolion gwledig yn y dyfodol o bosib.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo cynnwys Strategaeth Trawsnewid Digidol 2021-2024.

8. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR POLISI AC ADNODDAU AR GYFER 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022 a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y cyngor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau ar gyfer 2021/22.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 10 Mehefin 2021.

10. COFNODION - 29AIN MAWRTH 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 29 Mawrth 2021 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**